

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 8fed o Hydref 2019

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iona Jones – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Sian Dafydd, Harry Wyn Owen, Sheena Thomas, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas - Nebo; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir; PC Alec Higgins a PCSO Mark Holland (eitem 2) / **Ymddiheuriadau** Nerys Williams, Justin Davies, Dylan Herbert, Erfyl Williams – Penygroes. Croesawyd Gareth i’w gyfarfod cyntaf fel aelod newydd yn cynrychioli Talysarn. Rhoddwyd y rheolau sefydlog i un ochr ar gyfer eitem 2 yn unig, er mwyn trafod yn Saesneg.
- 2. PC Alex Higgins** (gwadd) – CCTV. Dywedodd Alex fod nifer o broblemau efo’r system bresennol ym Mhenygroes. Nid yw’r ansawdd llun yn ddigonol, nid oes mynediad hawdd ar gyfer gallu monitro, linc rhyngwrwydd yn annigonol, a nid yw’r system bresennol yn cyrraedd y gofynion presennol ac yn torri’r rheolau cyfredol. Roedd PC Higgins yn adrodd fod rhai ardaloedd eraill yn uwchraddio eu systemau, ac yn buddsoddi. Dangoswyd esiamplau o’r ansawdd llun o’r system sy’n cael ei ddefnyddio yng Nghaernarfon, ac y byddai uwchraddio ym Mhenygroes yn golygu yn ddelfrydol gallu monitro yn ganolog, gan ddefnyddio adeilad Antur Nantlle fel hwb ar gyfer darlledu’r signal, a chael pwyntiau cysylltu camerau ar y polion golau stryd. Roedd PC Higgins wedi derbyn amcangyfrif ar gyfer cael system newydd pedwar camera newydd a disodli’r rhai presennol, a phris ar gyfer cynyddu niferoedd camerau wedyn yn y dyfodol. Byddai’r cynnal a chadw angen ei ariannu os y byddai’r system yn cael ei uwchraddio. Cafwyd cyfle i holi Mark am y sefyllfa bresennol yn gyffredinol – ymddygiad gwrthgymdeithasol, adrodd am ddigwyddiadau sylweddol gyda ysgolion, beiciau modur yn cael eu gyrru ar y llwybr yn Talysarn. Diolchwyd Alex a Mark am yr holl waith y maent yn ei wneud yn y gymuned. Wedi i Mark ac Alex adael y cyfarfod, trafodwyd CCTV ymhellach. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod yr heddlu yn dibynnu llawer iawn ar CCTV gan bod cyn lleied o swyddogion o gwmpas. Y system newydd arfaethedig yn bendant o safon llawer iawn gwell. Gallwn gael ymgyrch efo’r busnesau lleol a diwydiannau ar y stad ddiwydiannol am ffynonellau arian. Cynnigwyd fod £1000 o bunnoedd yn cael ei ychwanegu fel gwariant blyneddol yng nghyllid y Cyngor – HWO/SD yn eilio. Pawb yn cytuno.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Sian Dafydd – Eitem 10 Cynllunio – Tal y Maes Mawr, Nebo. Cafwyd y cofnodion yn gywir, pawb yn cytuno.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Medi.** Eitem 13 – Goleuadau Nadolig - newid i ‘ar fin cael ei wneud’, ac eitem 7 – Plant Ysgol.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith Humphreys. Diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled.
- 6. Materion yn codi o’r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Rhoi gwahoddiad i Bennaeth Ysgol Dyffryn Nantlle i’n cyfarfod fis Tachwedd (Judith am gysylltu). Hefyd, awgrymwyd gwahodd Rhian George, Swyddog Adfywio Cyngor Gwynedd i un o’n cyfarfodydd yn y dyfodol agos. Ac hefyd Arwel Owen – Cynefin. OP Huws wedi cysylltu efo DAS ynglyn a profi nad oes unrhyw un yn berchennog ar y gofeb. Mae angen cadarnhad fod pob un o’r ymddiriedolwyr wedi marw bellach. Gofynwyd I’r Clerc lythyru efo ymgymerwyr i hysbysu nad yw pridd i’w roi yn y corlenni, a bydd eitem i’w roi yn Llew am ymgyrch y Cyngor mewn perthynas a llygredd a’r ysbwriel yn y mynwentydd, a’n bod am ddymchwel y corlenni; Parc Sglefrio yn parhau i beri pryder gan fod tyllau mawr yn yr offer, a bod plant yn dringo drosodd i’r parc o hyd; Swyddfa Bost Talysarn – anghysondeb yn y gwasanaeth – wedi cau ar y 7fed a’r 8fed o Hydref, a mis Medi, yr henoed wedi cerdded i’r swyddfa bost, a chyrraedd a gweld ei fod wedi cau. Llythyr i’r cyswllt cenedlaethol ar gyfer Swyddfeydd Post, a copi i D Lloyd.
- 7. Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i’r Heddlu.** Talysarn Bin baw ci wedi diflannu o’r cae pel droed – holi eto am un mwy wrth y giat. Nebo Wedi chwistrellu at y gwaith dwr o’r llyn, ac yn y gwaith dwr. Lon Llanllyfni/Nasareth yn mynd o ddrwg i waeth; Pontcrychddwr – ceir yn osgoi’r tyllau ac yn ymwithio i ochr groes y lon – peryglus. Gofyn i Cyngor Gwynedd archwilio o waelod Llanllyfni i Nasareth Y trac at Llyn Cwm Dulyn yn dirywio – cysylltu efo’r Bwrdd Dwr i ofyn iddynt roi sylw. Llanllyfni Pont rhwng Llanllyfni a Penygroes – dail poethion angen eu clirio. Cwynion am y chwyn ar y tir ar safle’r Quarry ; Drain yn dod drosodd i Lon Ddwr o Y Felin ; Lon Ddwr ar gau ar y 28ain o Hydref – dim ond rhai o’r trigolion sydd wedi cael llythyr i rybuddio ; Trafnidiaeth loriau i Taldrwt – pryder gan fod 3 lori ar o lei gilydd yn teithio ar hyd y lon. Gofyn wrth Cyngor Gwynedd os ydynt yn asesu cyflwr y lon, a pha mor aml, gan fod pryder fod y cyflwr yn dirywio yn sylweddol yn enwedig Tyddyn Anas. Holi am pa mor hir mae’r gwaith i barhau. Beth sy’n cael ei gario ac o lle? Dylai fod trwydded ar gyfer pob llwyth sydd yn cael ei

gario. Cwyno am y diffyg monitro. Nantlle Lwmp yn y lon ger y manhole yn Bro Silyn yn parhau i greu trafferthion, gan fod ceir yn mynd i ochr anghywir y ffordd i osgoi – tynfa yn y fan honho hefyd, a perygl o ddamwain. Penygroes Diolch i Dale am drwsio'r bocs trydan wrth y Fic. Cwyn gan riant Bro Lleu am yr ysbwriel ar y llwybr o Llwyn y Fuches i Ffordd y Brenin. Cwynion yn parhau am blant ysgol yn ysmegu ar Ffordd y Brenin. Rhieni meithrin Bro Lleu yn gorfod mynd a'u plant i'r ysgol Feithrin ar hyd y llwybr tu ol i'r gampfa; Iona wedi creu taflen bositif am Ysgol Dyffryn Nantlle, a bod angen llongyfarch yr Ysgol am yr agweddau a grybwyllwyd ganddi; Stryd yr Wyddfa – golwg yn y boraeau – papur ac ati y creu blerwch; Parcio Maes Dulyn – Judith yn gobeithio cael ateb erbyn diwedd wythnos nesaf.

8. Llwybrau a Mynwentydd Gofyn am fil cyfredol wedi ei fanylu o'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma.

9. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Cyfrifon 2018-19, Biliau i'w Talu. A Johnson - £25
Ffon/Rhyngryd, A Johnson - £18.00 Derbynebau; Antur Nantlle – adnewyddu gwefan £30 a £144; Ffair Nadolig Penygroes (siec yn lle un sydd wedi expirio £125.00. Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliad – cytuno a'r ddogfen. Caniatayd talu'r anfonebau.

10. Cynllunio:– C19/0842/22/LL – Adeilad amaethyddol, Hyfrydle, Talysarn - derbyn; C19/0847/22/LL – 4 pabell safari ac yn y blaen Tir Tal y Maes Mawr, Nebo – Sian Dafydd yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell. Penderfyniad y Cyngor oedd gwrthwynebu ar yr un sail a'r cais blaenorol sef preifatrwydd trigolion a thrafnidiaeth ar hyd lon gul; C19/0906/22/LL – Ail leoli ffens bresennol (cais ol-weithredol) Safle Express Motors, Penygroes - derbyn; C19/0814/22/LL – Trosi stablau yn llety 4 ystafell ar wahan – Siop Griffiths, Penygroes – derbyn; C19/0911/22/LL – Estyniad deulawr, Bryn Tirion, Tyn y Weirglodd Penygroes – derbyn. Sheena yn gadael y cyfarfod.

11. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis: Dim – Trefnu cyfarfod ar gyfer trafod cynllun MacPelah – 29ain o Hydref. Is-Bwyllgor Ariannol i gyferfod bedair gwaith y flwyddyn hanner awr cyn cychwyn cyfarfod llawn misol y Cygor – Dafydd Thomas, Gareth, Gwyndaf, Barry, OP, Sian; Harry Wyn Owen yn sefyll i lawr o fwrdd llywodraethu Ysgol Talysarn – Sian yn fodlon cymryd ei le – pawb yn cytuno.

12. Goleuadau Nadolig Diweddariad erbyn mis nesaf – ar hyn o bryd ar fin gosod y sockets.

13. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

* Cynllun Datblygu Lleol Eryri – derbyn.

***Arall**

*.Cynefin – Eiddo ar gael yn Nantlle. Er gwybodaeth.

14. Ceisiadau am Arian –.Siec yn lle un sydd wedi expirio – Ffair Nadolig Penygroes. Pwyllgor Eisteddfod Llanllyfni; Age Gwynedd a Mon. Caniatayd rhoi siec arall i bwyllgor y Ffair Nadolig gan nad oedd yr un blaenorol wedi ei chyflwyno. Ceisiadau eraill i'w trafod Chwefror.